

# Cofrestru ac arolygu llaeth

Y ddeddfwriaeth sy'n nodi'r hyn yr ydym ni'n ei orfodi, yr hyn y mae arolygwyr yn ei oruchwyllo a sut i wneud cais i gofrestru daliad cynhyrchu llaeth.

## Cofrestru daliad cynhyrchu llaeth

Er mwyn gallu cynhyrchu llaeth a chynnyrch llaeth, bydd angen i chi gofrestru.

Lloegr a Cymru

[View Cais cofrestru daliad cynhyrchu llaeth \(Saesneg yn unig\) as Word \(204 KB\)](#)

## Arolygiadau hylendid llaeth

Mae ein arolygiadau hylendid llaeth yn sicrhau bod safon foddhaol o hylendid yn cael ei gynnal ar bob fferm llaeth. Gwnawn hyn trwy arolygu safleoedd godro, offer, anifeiliaid sy'n cynhyrchu llaeth a gorfodi safonau boddhaol.

Mae'r arolygiadau yn helpu i warchod cyflenwad llaeth amrwd y wlad rhag cael ei halogi gan facteria a sylweddau eraill a all fod yn beryglus.

Mae arolygwyr yn gorfodi rhannau o:

- Rheoliad 852/2004
- Rheoliad 853/2004
- Rheoliad 854/2004
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob safle sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd i'w yfed neu fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys gweithgareddau fel:

- cofrestru safleoedd cynhyrchu cymeradwy, ffermydd llaeth
- arolygu safleoedd godro,
- arolygu offer ac anifeiliaid sy'n cynhyrchu llaeth
- gorfodi safonau boddhaol

Mae'r arolygwyr hefyd yn goruchwyllo rhaglen samplu llaeth yfed amrwd, a gyflawnir ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd gan Grŵp Gwyddonol Eclipse yng Nghymru a Lloegr.

## Pa mor aml y cynhelir arolygiadau

Gall gwahanol fecanweithiau gweithredu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon olygu bod ffermydd tebyg mewn gwahanol rannau o'r wlad yn ddarostyngedig i amllder arolygu gwahanol.

Gwneir gwiriadau ychwanegol ar ffermydd sy'n aelodau o'r cynllun Ffermwr Llaeth Safonol –

cynllun sicrwydd Tractor Coch. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae tua 12,000 o ddaliadau sy'n cael eu harchwilio bob 18 mis yn erbyn safonau'r Cynllun Fferm Llaeth Safonol.

Mae amllder arolygu yng Nghymru a Lloegr yn adlewyrchu, lle bo'n briodol, aelodaeth o'r Cynllun Ffermydd Llaeth Safonol.